# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 6

PERFFORMIAD PRIF GYNGHORAU [[F1]A CHYD-BWYLLGORAU CORFFOREDIG] A'U LLYWODRAETHU

## PENNOD 1

PERFFORMIAD, ASESIADAU PERFFORMIAD AC YMYRRAETH[[F2]: PRIF GYNGHORAU]

*Atodol*

### 110 Pŵer Gweinidogion Cymru i ddiwygio etc. ddeddfiadau a rhoi pwerau newydd

(1) Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod deddfiad (ac eithrio darpariaeth yn y Bennod hon) yn atal neu'n rhwystro prif gyngor rhag cydymffurfio â'r Bennod hon, caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio, addasu, ddiddymu, ddirymu neu ddatgymhwyso'r deddfiad hwnnw mewn perthynas ag—

(a) pob prif gyngor,

(b) prif gynghorau penodol, neu

(c) prif gynghorau o ddisgrifiadau penodol.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth sy'n rhoi i—

(a) pob prif gyngor,

(b) prif gynghorau penodol, neu

(c) prif gynghorau o ddisgrifiadau penodol,

***Statws** Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn cael effaith mwyach.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Adran 110. (See end of Document for details)*

unrhyw bŵer y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn angenrheidiol neu'n hwylus er mwyn caniatáu i brif gyngor gydymffurfio â'r Bennod hon, neu sy'n hwyluso hynny.

(3) Caiff rheoliadau o dan is-adran (2) osod amodau ar arfer unrhyw bŵer a roddir gan y rheoliadau (gan gynnwys amodau ynglŷn ag ymgynghori neu gymeradwyo).

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn Rhn. 6 title wedi eu mewnosod (15.7.2022) gan Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2022 (O.S. 2022/797), rhlau. 1(2), **6(1)**

**Diwygiadau Testunol**

**F2** Geiriau yn Rhn. 6 Pnd. 1 title wedi eu mewnosod (15.7.2022) gan Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2022 (O.S. 2022/797), rhlau. 1(2), **6(2)**

**Statws**
Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn cael effaith mwyach.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Adran 110.